# Ardal Ni 2035
# Canlyniadau Ymarferiad Ymgysylltu Cyhoeddus
(Chwefror – Mehefin 2022)

## Ardal Caernarfon



# 1 Cyflwyniad

1.1 Bwriad prosiect Ardal Ni 2035 ydi cynnal sgwrs a thrafod gyda chymunedau lleol er mwyn adnabod beth sy'n bwysig i drigolion a sut yr hoffent weld eu hardal yn datblygu dros y 10-15 mlynedd nesaf.

1.2 Ein bwriad yw cyd-weithio a chyd-ddatblygu datrysiadau gyda sefydliadau, grwpiau ac unigolion. Ar ddiwedd y prosiect bydd 13 cynllun adfywio penodol yn cael eu creu a fydd adlewyrchu blaenoriaethau a dyheadau cymunedau lleol.

1.3 Fel cam cyntaf i'r gwaith, cynhaliwyd sgyrsiau gyda Chynghorwyr, Cynghorau Cymuned a Thref a grwpiau adfywio lleol er mwyn sefydlu:

- **Beth sy'n dda** am yr ardal?
- **Beth sydd ddim mor dda** am yr ardal?
- **Pa newidiadau fysech chi'n dymuno eu gweld yn digwydd yn eich ardal** yn ystod y 15 mlynedd nesaf, fysa'n gwneud eich ardal yn well lle i fyw ynddi?

1.4 Fe wnaeth **8** o Gynghorau Cymuned/Tref, mudiadau, grwpiau ac Aelodau lleol yn Ardal Caernarfon gyflwyno eu syniadau ynglŷn â beth ddylai fod yn flaenoriaethau lleol ar gyfer yr ardal yn y cyfnod hyd at 2035. Defnyddiwyd yr ymatebion yma fel sail ar gyfer yr ail-gam o ymgysylltu ehangach gyda'r cyhoedd.

1.5 Ym mis Chwefror 2022 fe lansiwyd ymarferiad ymgysylltu cyhoeddus ar gyfer pob un o'r 13 ardal/dalgylch, gyda gwahoddiad i bobl leol gyfrannu i'r gwaith o siapio prosiect Ardal Ni 2035 drwy lenwi holiadur syml ar-lein neu ar bapur.

1.6 Er mwyn annog cymaint o bobl â phosib i gymryd rhan, trefnwyd ymgyrch ymgysylltu cynhwysfawr a oedd yn cynnwys:

- Datganiadau i'r wasg ac eitem ar y radio;
- Hysbysebion yn y papurau Bro;
- Taflenni gwybodaeth;
- Negeseuon drwy'r cyfryngau cymdeithasol;
- Negeseuon amlwg ar dudalen gartref gwefan y Cyngor;
- Mynychu digwyddiad Balchder Gogledd Cymru ym Mangor.

1.7 Yn ogystal, trefnwyd cyfres o ymweliadau a chyfarfodydd wyneb yn wyneb i glywed lleisiau grwpiau ac unigolion nad yw'r Cyngor wedi clywed (rhyw lawer) ganddynt yn hanesyddol. Roedd rhain yn cynnwys:


- GISDA Blaenau Ffestiniog – Sesiwn drafod gyda'r criw Bwrdd Pobl Ifanc a sesiwn drafod gydag aelodau o Glwb LHDT+ GISDA.
- GISDA Caernarfon - Sesiwn drafod gydag aelodau o Glwb LHDT+ GISDA.
- GISDA Pwllheli - Sesiwn drafod gydag aelodau o Glwb LHDT+ GISDA.
- Dementia Actif Gwynedd, Y Bermo – Sesiwn drafod ar ôl yr ymarfer cadw'n heini.
- Dementia Actif Gwynedd, Dolgellau - Sesiwn drafod ar ôl yr ymarfer cadw'n heini.
- Dementia Actif – Sesiwn drafod ar ôl chwarae Boccia yn Nhafarn yr Heliwr yn Nefyn.
- Dementia Actif, Caernarfon - Sesiwn drafod ar ôl yr ymarfer cadw'n heini.

# 2 Trosolwg Sirol

**3,776** o unigolion ar draws Gwynedd wedi manteisio ar y cyfle i ddweud eu dweud:


- **3,675** o'r rhain wedi cwblhau'r holiadur ar-lein.
- **10** wedi cwblhau'r holiadur papur a oedd ar gael yn y llyfrgelloedd, siopau Gwynedd neu drwy gyflwyno cais dros y ffôn.
- **6** wedi cwblhau'r fersiwn 'Hawdd ei Ddarllen' o'r holiadur.
- **85** o bobl wedi mynychu sesiynau wyneb yn wyneb ar gyfer **pobl ifanc**, **pobl ifanc LHDT+**, **pobl hŷn** a **phobl sy'n byw gyda dementia.**


## 2.1 **Nifer o ymatebwyr fesul ardal***





*Ar gyfer yr holiadur ar-lein a phapur.


## 2.2 Trosolwg o’r Ymatebwyr i'r Arolwg Cyhoeddus ar gyfer Gwynedd.





NODWCH EICH GRŴP OEDRAN
15 OED NEU'N IAU
16 - 24 OED
25 - 34 OED
35 - 44 OED
45 - 54 OED
55 - 64 OED
65 - 74 OED
75 - 84 OED
85+ OED
GWELL GENNYF BEIDIO Â DWEUD
43
93
380
581
859
890
525
144
22
146
0
200
400
600
800
1000





YDYCH CHI'N DEALL, SIARAD, DARLLEN A/NEU'N YSGRIFENNU'N GYMRAEG?
SIARAD CYMRAEG
1963
DEALL CYMRAEG AR LAFAR
1641
DARLLEN CYMRAEG
1577
YSGRIFENNU'N GYMRAEG
1413
DDIM YN DEALL CYMRAEG
706
GWELL GENNYF BEIDIO Â DWEUD
449
0
500
1000
1500
2000
2500






CENEDLIGRWYDD NEU HUNANIAETH GENEDLAETHOL?
CYMREIG
1880
SEISNIG
482
ALBANAIDD
21
GWYDDELIG O OGLEDD IWERDDON
2
PRYDEINIG
844
GWELL GENNYF BEIDIO Â DWEUD
212
ARALL:
97
0
500
1000
1500
2000


BETH YW EICH HIL?
GWYN
DU / CARIBÏAIDD AFFRICANAIDD
ASIAIDD
SIPSIWN / TEITHIWR GWYDDELIG
CYMYSG / SAWL GRŴP ETHNIG
GWELL GENNYF BEIDIO Â DWEUD
ARALL:
3204
12
10
4
25
260
19
0
500
1000
1500
2000
2500
3000
3500


BETH YW EICH CREFYDD?
CRISTION
MWSLEMAIDD
BWDHAIDD
HINDW
IDDEWIG
ANFFYDDIWR
GWELL GENNYF BEIDIO Â DWEUD
ARALL:
1789
6
22
4
8
820
803
236
0
500
1000
1500
2000


PA UN O'R RHAIN SY'N EICH DISGRIFIO CHI ORAU?
HETERORYWIOL / STRÊT
3055
DYN HOYW
47
DYNES HOYW / LESBIAN
29
DEURYWIOL (BISEXUAL)
53
GWELL GENNYF BEIDIO Â DWEUD
425
ARALL:
28
0
500
1000
1500
2000
2500
3000
3500



YDI EICH HUNANIAETH RHYWEDD WEDI NEWID O'R HYN A BENNWYD ADEG EICH GENI?
YDI
46
NA
3218
GWELL GENNYF BEIDIO Â DWEUD
300
0
500
1000
1500
2000
2500
3000
3500



A YDYCH CHI'N YSTYRIED EICH HUN YN BERSON ANABL?
YDW
317
NAC YDW
3068
GWELL GENNYF BEIDIO Â DWEUD
305
0
500
1000
1500
2000
2500
3000
3500


# 3 Canlyniadau Ardal Caernarfon


## 3.1 Trosolwg o’r Ymatebwyr i'r Arolwg Cyhoeddus ar gyfer Ardal Caernarfon


3.2 Derbyniwyd **382** o ymatebion i’r Holiadur Ardal Ni 2035 ar gyfer Ardal Caernarfon.










YDYCH CHI'N DEALL, SIARAD, DARLLEN A/NEU'N YSGRIFENNU'N GYMRAEG?
SIARAD CYMRAEG
308
DEALL CYMRAEG AR LAFAR
210
DARLLEN CYMRAEG
235
YSGRIFENNU'N GYMRAEG
227
DDIM YN DEALL CYMRAEG
32
GWELL GENNYF BEIDIO Â DWEUD
21
0
50
100
150
200
250
300
350



CENEDLIGRWYDD NEU HUNANIAETH GENEDLAETHOL?
CYMREIG
294
SEISNIG
24
PRYDEINIG
44
GWELL GENNYF BEIDIO Â DWEUD
12
ARALL:
8
0
50
100
150
200
250
300
350


BETH YW EICH HIL?
GWYN
213
ASIAIDD
1
CYMYSG / SAWL GRŴP ETHNIG
2
GWELL GENNYF BEIDIO Â DWEUD
10
ARALL:
1
0
50
100
150
200
250


BETH YW EICH CREFYDD?
CRISTION
MWSLEMAIDD
BWDHAIDD
IDDEWIG
ANFFYDDIWR
GWELL GENNYF BEIDIO Â DWEUD
ARALL:
202
1
3
2
86
64
24
0
50
100
150
200
250


PA UN O'R RHAIN SY'N EICH DISGRIFIO CHI ORAU?
HETERORYWIOL / STRÊT
DYN HOYW
DYNES HOYW / LESBIAN
DEURYWIOL (BISEXUAL)
GWELL GENNYF BEIDIO Â DWEUD
ARALL:
340
6
3
3
22
3
0
50
100
150
200
250
300
350
400


YDI EICH HUNANIAETH RHYWEDD WEDI NEWID O'R HYN A BENNWYD ADEG EICH GENI?
YDI
7
NA
353
GWELL GENNYF BEIDIO Â DWEUD
20
0
50
100
150
200
250
300
350
400


A YDYCH CHI'N YSTYRIED EICH HUN YN BERSON ANABL?
YDW
29
NAC YDW
332
GWELL GENNYF BEIDIO Â DWEUD
21
0
50
100
150
200
250
300
350

# 4 Nifer o ymatebwyr fesul tref neu bentref yn Ardal Caernarfon

4.1 Mae’r tabl isod yn dangos y nifer o ymatebwyr fesul tref neu bentref yn Ardal Caernarfon.

| Tref/Pentref | Nifer o ymatebwyr |
|---|---|
| • Caernarfon | **260** |
| • Arall: | **78** |
| • Bontnewydd | **30** |
| • Llanfaglan | **7** |

# 5 Beth sy'n dda am Ardal Caernarfon?

5.1 Mae'r tabl isod yn rhestru'r themâu a flaenoriaethwyd gan Gynghorau Cymuned / Tref, mudiadau, grwpiau ac Aelodau lleol Ardal Caernarfon. Fel rhan o'r ymarferiad ymgysylltu cyhoeddus, gwahoddwyd preswylwyr Ardal Caernarfon i ddewis hyd at 5 thema yr oeddynt yn cytuno gyda fwyaf.

| Beth sy'n dda am Ardal Caernarfon? | Nifer o weithiau y blaenoriaethwyd y thema |
|---|---|
| • Yr iaith Gymraeg a'r diwylliant | 257 |
| • Yr amgylchedd naturiol ac hwylustod at fynyddoedd, lan y môr a chefn gwlad | 222 |
| • Treftadaeth a hanes yr ardal | 202 |
| • Llwybrau cerdded a beicio a llwybr arfordir o safon | 148 |
| • Ysbryd a chyfeillgarwch cymunedol | 146 |
| • Cyfleusterau hamdden a diwylliant - Canolfan Hamdden, Sinema, Llyfrgell ac ati | 111 |
| • Gallu'r ardal i ddenu twristiaeth er budd economaidd | 101 |
| • Mae'n ardal ddiogel | 87 |
| • Cyfleusterau fel siopau, caffis a bwytai | 78 |
| • Mae'r ddarpariaeth addysg ac ysgolion yr ardal yn dda | 69 |
| • Cynnyrch a busnesau lleol yr ardal | 61 |
| • Mudiadau, elusennau, mentrau a grwpiau gwirfoddol gweithgar yr ardal | 56 |
| • Mae nifer o weithgareddau cymdeithasol yn cael eu cynnal yn yr ardal | 23 |
| • Cyfleoedd cyflogaeth | 12 |
| • Mae ystod eang o weithgareddau a chyfleoedd ar gael i bobl ifanc yn lleol | 7 |

5.2 Mewn ymateb i'r **cwestiwn 'Nodwch unrhyw beth arall sy'n dda am Ardal Caernarfon sydd heb ei restru uchod'**, derbyniwyd **70** o sylwadau ychwanegol gan breswylwyr yr ardal. Roedd nifer o'r ymatebion ychwanegol yn cynnig sylwadau pellach am y themâu uchod e.e. Ysbryd a chyfeillgarwch cymunedol (n=7); Yr iaith Gymraeg a'r diwylliant (n=7); Cynnyrch a busnesau lleol yr ardal (n=3).

O'r sylwadau a oedd yn nodi rhywbeth arall sydd yn dda am yr ardal, y themâu mwyaf poblogaidd oedd:

| Thema | Nifer o ymatebwyr ddaru nodi hyn |
|---|---|
| • Y ffordd osgoi newydd | **5** |
| • Agos i'r A55 a rhwydwaith ffyrdd eraill | **3** |
| • Agos i Parc Genedlaethol Eryri ac ardaloedd llechi | **3** |

5.3 Yn ychwanegol i'r uchod, trefnwyd sesiwn wyneb yn wyneb gyda chriw Dementia Actif Gwynedd yng Nghanolfan Hamdden Arfon, Caernarfon. Mae'r sylwadau yma i'w gweld yn Atodiad A.

5.4 Yn ychwanegol i'r uchod, trefnwyd sesiynau wyneb yn wyneb gyda phobl ifanc a phobl ifanc LHDT+ ar y cyd gyda elusen GISDA. Mae'r sylwadau yma i'w gweld yn Atodiad B.

5.5 Bydd yr holl sylwadau ychwanegol a dderbyniwyd yn cael eu hystyried fel rhan o'r gwaith o ddatblygu'r cynlluniau ardal.

# 6 Beth sydd ddim mor dda am Ardal Caernarfon?

6.1 Mae'r tabl isod yn rhestru'r themâu a flaenoriaethwyd gan Gynghorau Cymuned / Tref, mudiadau, grwpiau ac Aelodau lleol Ardal Caernarfon. Fel rhan o'r ymarferiad ymgysylltu cyhoeddus, gwahoddwyd preswylwyr Ardal Caernarfon i ddewis hyd at 5 thema yr oeddynt yn cytuno gyda fwyaf.

| **Beth sydd ddim mor dda am Ardal Caernarfon?** | **Nifer o weithiau y blaenoriaethwyd y thema** |
|---|---|
| • Mae sbwriel, blerwch ac edrychiad cyffredinol yr ardal yn broblem | **197** |
| • Mae angen mwy o gefnogaeth a buddsoddiad i adfywio canol tref Caernarfon | **178** |
| • Diffyg tai addas a fforddiadwy i bobl leol i'w prynu neu'u rhentu | **167** |
| • Mae'r economi leol yn fregus, nid oes digon o gefnogaeth i fusnesau ac mae siopau'n cau | **166** |
| • Mae ymddygiad gwrthgymdeithasol a camddefnydd o gyffuriau ac alcohol yn broblem yn yr ardal | **162** |
| • Diffyg swyddi cyflog uchel a llawn amser yn lleol | **141** |
| • Diffyg darpariaeth a gweithgareddau i bobl ifanc | **137** |
| • Mae tlodi yn broblem yn yr ardal | **116** |
| • Mae nifer uchel o ail dai a thai haf yn yr ardal | **111** |
| • Problemau yn ymwneud â pharcio, cyflwr ffyrdd a thraffig mewn sawl rhan o'r ardal | **80** |
| • Trefniadau ar gyfer cerddwyr a cherbydau ar y Maes | **79** |
| • Pryder yn lleol am ddarpariaeth iechyd, lles a gofal yn yr ardal | **67** |
| • Mae'r rhwydwaith trafnidiaeth gyhoeddus yn yr ardal yn annigonol | **59** |
| • Mae gan bobl agweddau a damcaniaethau negyddol am yr ardal a'i phobl | **56** |
| • Mae llawer o grwpiau, mudiadau a mentrau cymunedol wedi eu sefydlu ond angen gwell cydweithio ymysg y grwpiau er mwyn osgoi dyblygu | **22** |

6.2 Mewn ymateb i'r cwestiwn **'Nodwch unrhyw beth arall sydd <u>ddim mor dda</u> am Ardal Caernarfon sydd heb ei restru uchod',** derbyniwyd **146** o sylwadau ychwanegol gan breswylwyr yr ardal. Roedd nifer o'r ymatebion ychwanegol yn cynnig sylwadau pellach am y themâu uchod e.e. Mae sbwriel, blerwch ac edrychiad cyffredinol yr ardal yn broblem, gyda chryn dipyn o sylw i faw ci yn y sylwadau (n=33); Mae ymddygiad gwrthgymdeithasol a camddefnydd o gyffuriau ac alcohol yn broblem yn yr ardal (n=10); Problemau yn ymwneud â pharcio, cyflwr ffyrdd a thraffig mewn sawl rhan o'r ardal (n=9); Mae angen mwy o gefnogaeth a buddsoddiad i adfywio canol tref Caernarfon (n=9); Trefniadau ar gyfer cerddwyr a cherbydau ar y Maes (n=7).

O'r sylwadau a oedd yn nodi rhywbeth arall sydd ddim mor dda am yr ardal, y themâu mwyaf poblogaidd oedd:

| **Thema** | **Nifer o ymatebwyr ddaru nodi hyn** |
|---|---|
| • Diffyg llwybrau a phalmentydd hygyrch i gysylltu Caernarfon gyda phentrefi cyfagos. | **10** |
| • Sylwadau ynghylch gwaith Cyngor Gwynedd yn gyffredinol. | **8** |
| • Siopau yn cau. | **7** |
| • Diffyg swyddi rhan-amser a llawn amser gwerth uchel. | **7** |
| • Gwylanod. | **5** |
| • Sylwadau ynghylch y canfyddiad o ddiffyg cefnogaeth i'r sector dwristiaeth yn yr ardal. | **4** |

6.3 Yn ychwanegol i'r uchod, trefnwyd sesiwn wyneb yn wyneb gyda chriw Dementia Actif Gwynedd yng Nghanolfan Hamdden Arfon, Caernarfon. Mae'r sylwadau yma i'w gweld yn Atodiad A.

6.4 Yn ychwanegol i'r uchod, trefnwyd sesiynau wyneb yn wyneb gyda phobl ifanc a phobl ifanc LHDT+ ar y cyd gyda elusen GISDA. Mae'r sylwadau yma i'w gweld yn Atodiad B.

6.5 Bydd yr holl sylwadau ychwanegol a dderbyniwyd yn cael eu hystyried fel rhan o'r gwaith o ddatblygu'r cynlluniau ardal.

# 7 Pa newidiadau fyddech chi'n dymuno eu gweld yn digwydd yn Ardal Caernarfon dros y 15 mlynedd nesaf fyddai'n gwneud yr ardal yn well lle i fyw ynddi?

7.1 Mae'r tabl isod yn rhestru'r themâu a flaenoriaethwyd gan Gynghorau Cymuned / Tref, mudiadau, grwpiau ac Aelodau lleol Ardal Caernarfon. Fel rhan o'r ymarferiad ymgysylltu cyhoeddus, gwahoddwyd preswylwyr Ardal Caernarfon i ddewis hyd at 5 thema yr oeddynt yn cytuno gyda fwyaf.

| **Pa newidiadau fyddech chi'n dymuno eu gweld yn digwydd yn Ardal Caernarfon dros y 15 mlynedd nesaf fyddai'n gwneud yr ardal yn well lle i fyw ynddi?** | **Nifer o weithiau ddaru'r thema cael ei ddewis** |
|---|---|
| • Cynlluniau i wella edrychiad yr ardal - tacluso, mwy o finiau, blodau gwyllt ac ati | **188** |
| • Cynlluniau i greu gwaith a swyddi gwerth uchel yn yr ardal | **171** |
| • Cynlluniau i sicrhau tai sy'n addas i anghenion bobl leol yr ardal | **170** |
| • Mae angen darparu rhagor o gyfleusterau ar gyfer pobl ifanc yr ardal a'u hannog i gymryd rhan fwy gweithredol yn y gymuned | **163** |
| • Cynlluniau i leihau ymddygiad gwrthgymdeithasol | **159** |
| • Cynlluniau i gefnogi busnesau a mentrau lleol i sefydlu ac i ffynnu | **136** |
| • Ardal yn fwy gwyrdd - ynni adnewyddol, lleihau'r defnydd o blastig, pwyntiau gwefru ceir, cynlluniau plannu coed ac ati | **129** |
| • Cynllun Twristiaeth Gynaliadwy effeithiol i gael gwell rheolaeth ar dwristiaeth a gwneud y mwyaf o'r potensial economaidd i bobl leol | **107** |
| • Cynlluniau i gynnal a datblygu llwybrau cyhoeddus, llwybrau beicio a cherdded yr ardal | **93** |
| • Cynlluniau i ddatblygu rhwydwaith trafnidiaeth gyhoeddus lleol sy'n hygyrch, integredig ac addas i anghenion yr ardal | **76** |
| • Mae angen gwell darpariaeth o fewn y maes iechyd a llesiant yn yr ardal yn ogystal a datblygiad hwb cymunedol i gyfeirio unigolion at wasanaethau addas | **73** |
| • Cynlluniau i wneud y mwyaf o etifeddiaeth a threftadaeth yr ardal | **66** |
| • Cynlluniau i sicrhau fod mwy o ddigwyddiadau cymunedol yn digwydd yn yr ardal | **55** |
| • Cynlluniau i wella cyfleusterau ac adnoddau cymunedol lleol er mwyn dod a phobl at ei gilydd | **46** |
| • Mae angen mwy o gyfleusterau a gweithgareddau chwaraeon a chadw'n heini yn yr ardal | **32** |
| • Mae angen cryfhau'r berthynas rhwng yr Awdurdod Lleol a mentrau a grwpiau cymunedol lleol | **32** |

| | |
|---|---|
| • Gwell cyfathrebu a chydweithio rhwng grwpiau, mudiadau a mentrau yn y gymuned | **25** |

7.2 Mewn ymateb i'r cwestiwn '**Nodwch unrhyw beth yr ydych yn meddwl sydd wedi'i fethu uchod**', derbyniwyd **96** o sylwadau ychwanegol gan breswylwyr yr ardal. Roedd nifer o'r ymatebion ychwanegol yn cynnig sylwadau pellach am y themâu uchod e.e. Cynlluniau i wella edrychiad yr ardal - tacluso, mwy o finiau, blodau gwyllt ac ati gan gynnwys mynd i'r afael â baw ci (n=8); Ardal yn fwy gwyrdd - ynni adnewyddol, lleihau'r defnydd o blastig, pwyntiau gwefru ceir, cynlluniau plannu coed ac ati (n=5); Cynlluniau i greu gwaith a swyddi gwerth uchel yn yr ardal (n=5); Cynlluniau i sicrhau tai sy'n addas i anghenion bobl leol yr ardal (n=4); Mae angen gwell darpariaeth o fewn y maes iechyd a llesiant yn yr ardal yn ogystal a datblygiad hwb cymunedol i gyfeirio unigolion at wasanaethau addas (n=4).

O'r sylwadau a oedd yn nodi rhywbeth arall am yr ardal, y themâu mwyaf poblogaidd oedd:

| Thema | Nifer o ymatebwyr ddaru nodi hyn |
|---|---|
| • Cynlluniau i ddatblygu ac i fuddsoddi yng nghanol tref Caernarfon | **7** |
| • Deddfwriaeth er mwyn cael gwell reolaeth ar dai haf ac ail gartrefi | **6** |
| • Cynlluniau i wella edrychiad y Foryd | **6** |
| • Mynd i'r afael a materion ynghylch parcio mewn ambell i leoliad | **4** |

7.3 Yn ychwanegol i'r uchod, trefnwyd sesiwn wyneb yn wyneb gyda chriw Dementia Actif Gwynedd yng Nghanolfan Hamdden Arfon, Caernarfon. Mae'r sylwadau yma i'w gweld yn Atodiad A.

7.4 Yn ychwanegol i'r uchod, trefnwyd sesiynau wyneb yn wyneb gyda phobl ifanc a phobl ifanc LHDT+ ar y cyd gyda elusen GISDA. Mae'r sylwadau yma i'w gweld yn Atodiad B.

7.5 Bydd yr holl sylwadau ychwanegol a dderbyniwyd yn cael eu hystyried fel rhan o'r gwaith o ddatblygu'r cynlluniau ardal.

# 8 Camau Nesaf

8.1 Yn ystod yr hydref, bydd yr holl adborth yr ydym wedi'i dderbyn gan breswylwyr a sefydliadau dalgylch Caernarfon yn cael ei defnyddio mewn gweithdai gyda sefydliadau lleol fel rhan o waith i ddatblygu Cynllun Gweithredu Lleol.

8.2 Bwriad y Cynllun Gweithredu yw ymgorffori prosiectau a gweithgaredd ystod eang o sefydliadau sydd yn cyfrannu at adfywio a gwella ardal dalgylch Caernarfon.

8.3 Fel rhan o'r Fframwaith Adfywio, bydd trefniadau ar gyfer monitro a chydlynu'r rhaglen waith yn cael eu sefydlu, gan ystyried strwythurau a trefniadau cydweithio presennol.

8.4 Mae'r amserlen ar gyfer camau nesaf o'r gwaith fel a ganlyn:

- Gweithdai gyda sefydliadau Lleol : Hydref / Tachwedd 2022
- Cynlluniau Gweithredu Drafft yn cael eu paratoi : Mawrth 2023
- Derbyn sylwadau neu ychwanegiadau i'r ddogfen ddrafft : Ebrill 2023
- Cynllun Gweithredu diwygiedig : Ebrill / Mai 2023
- Trefniadau Cyd-lynu a monitro yn weithredol : Mai 2023

8.5 Bydd gwybodaeth pellach am y cynlluniau hyn yn cael eu cyhoeddi ar safle we Cyngor Gwynedd (www.gwynedd.llyw.cymru).

8.6 Hoffem ddiolch yn fawr i bawb sydd wedi cymryd yr amser i roi eu barn ac i gyfrannu i'r gwaith o wella a chryfhau ein cymunedau.

# Atodiad A

**Sylwadau a dderbyniwyd adeg y sesiwn ffitrwydd Dementia Actif Gwynedd yng Nghanolfan Hamdden Arfon, Caernarfon (07/07/22).**

**Beth sy'n dda am yr ardal?**

- Llwybrau cerdded da.
- Bysiau cyson yn mynd i lawer o lefydd.
- Gwersi Celf i'r henoed.
- Byw'n Iach.
- Cymuned a chymdogion da.
- Gweithgareddau gwych yn y Galeri, yn ogystal â ffilmiau da yn y sinema.
- Yr iaith Gymraeg – pawb yn siarad Cymraeg yn y strydoedd ac yn y siopau.

**Beth sydd ddim yn dda am yr ardal?**

- Mae'r stryd fawr wedi dirywio.
- Dim llawer i blant ifanc i wneud.
- Llai o Siopau.
- Edrychiad yr ardal yn gyffredinol e.e. sbwriel, gwair yn gôr dyfu.
- Llwybr Bontnewydd i'r stesion drên yn flêr.
- Dim llawer o gyfleon gwaith yn yr ardal.
- Pobl lleol yn gorfod talu i fynd i fewn i'r castell - doedd dim gorfod talu yn y gorffennol.
- Ddim yn hoff o leoliad y bysiau.
- Ffynnon wedi mynd o'r Maes.
- Llechi yn gallu bod yn llithrig ar y maes.
- Arwyddion i Cei llechi ddim digon amlwg.
- Prisiau tai yn uchel.

**Pa newidiadau fyddech chi'n dymuno eu gweld yn digwydd yn Ardal Caernarfon dros y 15 mlynedd nesaf fyddai'n gwneud yr ardal yn well lle i fyw ynddi?**

- Cadw y llwybrau yn daclus.
- Cael trethi isel i hybu a chefnogi siopau annibynnol.

# Atodiad B

## Clwb LHDT+ GISDA - Caernarfon (13/6/22).

**Beth sy'n dda am Ardal Caernarfon?**

- Cymuned Cyfeillgar.
- Llwybrau neis i gerdded ac i feicio.
- Parc sglefrio da.
- Llefydd da i fynd am fwyd.
- Clybiau Ieuenctid/cymdeithasol.
- Aer glan.
- Cymuned creadigol da – 'Life in full colour.'
- Castell a treftadaeth.
- Iaith Cymraeg yn cael ei siarad yn naturiol yn yr ardal.
- Cyfleoedd i gwirfoddoli – wedi cael profiadau da yn y Galeri, siopau elusen a caffis.
- Swyddi amrywiol, enwedig rhai creadigol.
- Gŵyl fwyd Caernarfon.
- Marchnad rheolaidd.
- Tafarndai da.

**Beth sydd ddim mor dda am Ardal Caernarfon?**

- Stigma o gwmpas pobl ifanc.
- Troseddau casineb a materion ynghylch bwlio.
- Canfyddiadau ynghylch gwaith yr heddlu.
- Cysylltiadau trafnidiaeth ddim yn ddigonol / annibynadwy a materion eraill ynghylch bysiau.
- Cyffuriau yn cael eu defnyddio yn agored yn yr ardal.
- Llety a chymorth – dim opsiynau diogel.
- Diffyg cymorth ariannol o ran addysg pellach ac i bobl ifanc yn gyffredinol.
- Tlodi yn broblem mawr yn yr ardal ac mae costau byw yn uchel.
- Parc hwyaid llawn gwydr wedi torri.
- Angen mwy o CCTV yn yr ardal.
- Canol y dref a'r teimlad ei fod yn anniogel, yn enwedig ar ôl iddi dywyllu.
- Iechyd a lles e.e. materion ynghylch y defnydd o ragenwau cywir ac yn cael trafferth newid enwau ar gofnodion meddygol; amser hir i gael apwyntiad; cymorth iechyd meddwl yn annigonol.
- Dim digon o addysg am y gymuned LHDT+. Mae angen i bawb rhoi yr ymdrech mewn i ddysgu.
- Ymddygiad gwrthgymdeithasol.
- Methu fforddio gwersi gyrru – rhy ddrud i gael gwersi, trwydded ac prawf.

**Pa newidiadau fyddech chi'n dymuno eu gweld yn digwydd yn Ardal Caernarfon dros y 15 mlynedd nesaf fyddai'n gwneud yr ardal yn well lle i fyw ynddi?**

- Caffis hwyr i bobl ifanc.
- Tafarn ar gyfer y gymuned LHDT+.
- Mwy o swyddogion cymorth cymunedol.
- Mwy o lefydd diogel i gymdeithasu.
- Gallu gweld amseroedd byw y bws fel sydd ar gael yn y dinasoedd.
- Gweld tal gyrwyr bws yn mynd i fyny.
- Gweld tocyn bws o dan 25 oed.
- Mynd i'r afael ag agweddau negyddol tuag at y gymuned LHDT+.

CYNGOR GWYNEDD

UK Government Wales
Llywodraeth y DU Cymru

www.gwynedd.llyw.cymru | 01766 771000